1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd

Y Gofrestrfa



# Croeso gan yr Is-Ganghellor


Diolch am eich diddordeb yn y swydd Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd.

Ers ei sefydlu dros 150 o flynyddoedd yn ôl, mae Prifysgol Aberystwyth wedi cydnabod pwysigrwydd addysg, ac yn hollbwysig, addysg i bawb a'r effaith y gall prifysgol ei chael ar bobl a'r gymdeithas ehangach. Prifysgol sy'n cael ei harwain gan ymchwil ydym ni a'n nod yw gwneud gwahaniaeth yn yr ymchwil a wnawn er budd cymdeithas. Rydym yn cael cydnabyddiaeth gyson am y profiad a'r dysgu rhagorol a roddwn i fyfyrwyr, ac ymdrechwn i sicrhau ein bod yn darparu'r addysg orau bosibl i'n myfyrwyr er mwyn eu paratoi am gamau nesaf eu bywydau. Cawsom ein gosod ar y brig yng Nghymru a Lloegr am brofiad Myfyrwyr gan Ganllaw Prifysgolion Da 2025 The Times a'r Sunday Times, ac yn 2026 roeddem ymhlith y 10 uchaf yn y DU am ansawdd y dysgu. Rydym yn gymuned academaidd fywiog, ac rydym yn ffodus iawn i fyw a gweithio mewn rhan brydferth o'r byd, gan roi nid yn unig ysbrydoliaeth, ond cyfle i ymlacio a mwynhau bywyd.

Rydym ar fin cychwyn ar gam nesaf ein taith, un sy'n llawn her, ond hefyd yn gyfle gwych felly mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â ni. Os oes gennych chi'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnom, ynghyd â rhinweddau arwain i yrru ein hagenda uchelgeisiol yn ei blaen, yna edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Diolch eto am eich diddordeb.

**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-ganghellor**



# Prifysgol Aberystwyth

Mae gan Brifysgol Aberystwyth draddodiad balch o ragoriaeth academaidd a ffocws ar ddarparu profiad myfyriwr eithriadol. Yng nghysgod y mynyddoedd ac wrth ymyl y môr, mae Aberystwyth yn ganolfan o bwysigrwydd cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â diwylliannol a masnachol.

Dros 150 o flynyddoedd, mae Prifysgol Aberystwyth wedi datblygu i fod yn gymuned academaidd gref a arweinir gan ymchwil sy'n cynnwys oddeutu 1,800 o staff a 6,500 o fyfyrwyr o bob rhan o'r byd, ac sy'n cynhyrchu tua £125m o drosiant bob blwyddyn.

Ein cenhadaeth yw darparu addysg ac ymchwil ysbrydoledig mewn amgylchedd cefnogol, creadigol ac eithriadol yng Nghymru. Mae bywyd myfyrwyr yma'n troi o gwmpas ein campws arfordirol a thref ddiogel a chlòs, ac eto cosmopolitanaidd, Aberystwyth.

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025 fod myfyrwyr Aberystwyth ymhlith y rhai sy'n fwyaf bodlon â'u prifysgol, gan ddod i'r brig yng Nghymru am y degfed flwyddyn yn olynol. Mae'r cyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr uchel hyn yn adlewyrchu safon yr addysg rydym yn ei chynnig yn ogystal â buddsoddiadau diweddar o fwy na £100m mewn gwella ac ymestyn ein cyfleusterau preswyl ac addysgu, a oedd eisoes yn rhagorol, a champws ArloesiAber newydd. Trwy fuddsoddiad wedi'i dargedu, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein myfyrwyr yn elwa o gyfleusterau ymchwil, addysgu a dysgu o'r radd flaenaf ac yn caffael y sgiliau y mae arnynt eu hangen i lwyddo mewn bywyd.

Mae rhai o'n meysydd rhagoriaeth ymchwil penodol yn cynnwys Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth a Gwyddor Amgylcheddol, Cysylltiadau Rhyngwladol, Amaethyddiaeth a Gwyddorau Bywyd. Yn ddiweddar, cyflwynwyd gwobr o fri Pen-blwydd y Frenhines i'r Brifysgol am ei gwaith parasitoleg arloesol.

Rydym yn falch o fod wedi agor yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol gyntaf yng Nghymru a Chanolfan Addysg Filfeddygol newydd yn ddiweddar, ochr yn ochr â'n canolfan filfeddygol hollbwysig bresennol a labordai bacteriolegol categori 3 i gefnogi ymchwil ynglŷn ag iechyd anifeiliaid ac iechyd dynol. Rydym hefyd yn gartref i'r Ganolfan Ffenomeg Genedlaethol, sy'n cynnwys y tŷ gwydr ymchwil mwyaf datblygedig yn y Deyrnas Unedig, wedi'i leoli yn ein Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Mae datblygiadau newydd eraill yn cynnwys darpariaeth Nyrsio newydd i gefnogi anghenion iechyd lleol a rhanbarthol.

Mae bywyd myfyrwyr yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan ein Hundeb Myfyrwyr gweithgar, sy'n cynnal mwy na 100 o wahanol glybiau a chymdeithasau. Mae gennym ein Canolfan Chwaraeon ein hunain ar y campws sy'n cynnwys pwll nofio, campfa, wal ddringo, a dosbarthiadau lles a ffitrwydd. Ein Canolfan Gelfyddydau ar y safle yw un o'r rhai mwyaf yng Nghymru gyda theatr, mannau arddangos a pherfformio yn ogystal â sinema fwtîc, bar a chaffi.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at gynllun strategol newydd 'Ar gyfer y 2030au'.



# Gwobrau ac Acoladau

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi derbyn gwobrau, acoladau a graddau mawr eu bri yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

**Prifysgol y Flwyddyn am Gynaliadwyedd**

(Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times)

**Ymhlith y 10 uchaf yn y DU am Ansawdd y Dysgu**

(Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times)

**Ar y Brig yng Nghymru a Lloegr am Brofiad Myfyrwyr**

(Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times)

**Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru**

(Canllaw Prifysgolion Da 2024, The Times a'r Sunday Times)

ACF

**Ar y brig yng Nghymru am Fodlonrwydd Myfyrwyr am y degfed flwyddyn yn olynol***

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025)

**Ar y brig yng Nghymru ac yn y 10 uchaf yn y DU am Gymorth Academaidd, Trefniadaeth a Rheolaeth, ac Adnoddau Dysgu**

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2024)

*(O'i gymharu â Sefydliadau Addysg Uwch Canllaw Prifysgolion Da, The Times a'r Sunday Times)

**Mae 98% o'r ymchwil o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch**

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)

The Queen's Anniversary Prizes

**Enillwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i gydnabod ei gwaith parasitoleg arloesol**

(2023)

Green Flag Award

**Gwobr Baner Werdd i Gampws Penglais Aberystwyth**

(2015, 2016, 2017, 2018, 2022)



# Ein Hanes a'n Treftadaeth

Mae gan Aberystwyth, sef y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru, draddodiad hir a nodedig o addysgu ac ymchwil, ac mae stori ein sefydlu yn y 19eg ganrif yn un o'r rhai gorau o gyflawniad arloesol mewn hanes modern Cymru.

Dan arweiniad y Cymro Llundain Hugh Owen, ceisiodd grŵp bach o wladgarwyr, o'r 1850au ymlaen, godi digon o arian trwy danysgrifiad cyhoeddus a phreifat i sefydlu coleg o statws prifysgol yng Nghymru. Roedd yn brosiect aruthrol o uchelgeisiol, ac agorodd y Brifysgol ei drysau ym 1872 gyda llond dyrnaid o athrawon a 26 o fyfyrwyr yn unig i ddechrau, yn yr hyn a oedd yn adeilad gwesty hanner orffenedig ('yr Hen Goleg') ar lan y môr.

Wynebodd y Brifysgol nifer o heriau i'w bodolaeth yn ystod y degawd cyntaf. Roedd haelioni ambell fuddiolwr unigol ac apeliadau wedi'u trefnu am gefnogaeth gan bobl gyffredin Cymru wedi cadw'r Brifysgol i fynd ac, efallai'n bwysicach, wedi'i gwreiddio'n ddwfn ym meddyliau a chalonnau pobl Cymru. Mae'n destun cryn falchder bod y Brifysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol at addysg menywod, a hithau'n un o'r sefydliadau cyntaf i dderbyn myfyrwyr benywaidd.

Ers y dyddiau cynnar hynny, mae Aberystwyth wedi mynd o nerth i nerth, a bellach mae ganddi oddeutu 6,500 o fyfyrwyr a 1,800 o staff. Wrth i'r sefydliad dyfu, symudodd ei brif gampws o'r Hen Goleg ar lan y môr i Fryn Penglais.

Mae'r safle hwn, sydd wedi'i dirweddu'n hardd, yn cynnig golygfeydd trawiadol dros dref farchnad hanesyddol Aberystwyth a morlin Bae Ceredigion. Mae adeiladau newydd, gan gynnwys datblygiadau celfyddydau a gwyddoniaeth mawr, neuaddau preswyl, Canolfan Gelfyddydau ragorol a chyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, wedi'u lleoli yma.

Mae'r Hen Goleg yn parhau i fod yn rhan annatod o'r Brifysgol ac mae gwaith ar y gweill i adnewyddu'r adeilad eiconig hwn, a drysorir fel un o'r enghreifftiau mwyaf arwyddocaol o bensaernïaeth adfywio Gothig yn y Deyrnas Unedig. Yr uchelgais yw rhoi bywyd newydd i'r Hen Goleg fel canolfan dreftadaeth a diwylliannol fywiog a fydd yn denu pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr o bell gydag ystafelloedd arddangos, mannau i ddysgu a rhannu gwybodaeth, a chanolfan ar gyfer egin fusnesau creadigol.



# Ein Hymchwil

Mae ymchwil yn rhan allweddol ac annatod o genhadaeth a gwaith y Brifysgol, a gefnogir gan ein Strategaeth Ymchwil, sy'n amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i'r ffordd rydym yn ymgymryd â gwaith ymchwil yn Aberystwyth. Mae'n amlygu cyfres o gamau gweithredu a fydd yn helpu i ddatblygu ein gwaith ymchwil yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac mae'n mynegi sut byddwn yn datblygu ymhellach amgylchedd ymchwil sy'n uchelgeisiol, yn edrych tuag allan, yn ymgysylltiedig ac yn gynhwysol.

Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes hir a nodedig o ymgymryd â gwaith ymchwil blaengar ar draws ystod o ddisgyblaethau. Cydnabuwyd bod gwaith ein hacademyddion yn arwain y ffordd yn fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol o ran ei wreiddioldeb, ei arwyddocâd a'i fanylrwydd (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021). Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod ansawdd cyffredinol gwaith ymchwil yn Aberystwyth wedi codi ers yr asesiad diwethaf yn 2014, gan fod 98% o'n holl weithgarwch ymchwil o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch, o fewn pob un o'r 14 o Unedau Asesu a gyflwynwyd. Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod mwy na thri chwarter o'n gwaith ymchwil wedi cael ei gategoreiddio fel bod yn arwain y ffordd yn fyd-eang (4*) neu'n rhagorol yn rhyngwladol (3*), sef 9 pwynt canran yn uwch na REF 2014.

Mae gan y Brifysgol ystod ragorol o gyfleusterau ac adnoddau i gynorthwyo â gweithgareddau ymchwil, gyda thair llyfrgell gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae Aberystwyth yn rhagori mewn ymchwil ar draws y Brifysgol. Ceir cryfder arbennig mewn Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth a Gwyddor Amgylcheddol, Cysylltiadau Rhyngwladol, Amaethyddiaeth a Gwyddorau Bywyd.



**Cloc Ffractal**

Adeiladwyd y Cloc Ffractal gan Richard Downing, darlithydd yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Daw'r cyfanwaith yn fyw wrth i'r 81 triongl gwydr droi drwy siwrnai ysgafn o batrymau symudol tuag at ennyd o eglurdeb, unwaith bob trigain munud.

# Ein Rôl yn y Gymuned

Mae gan y Brifysgol berthynas agos â'r gymuned – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol – ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu gweithgareddau ei chenhadaeth ddinesig.

Mae'r Brifysgol yn chwarae rôl allweddol yn yr economi, ac mae'n gyflogwr mawr ac yn ganolfan economaidd a diwylliannol bwysig yn y rhanbarth. Mae llawer o'i chymeriad unigryw yn dod o'r cyfuniad o staff a chorff myfyrwyr cyfeillgar, croesawgar a chynhwysol, gyda'r amgylchedd diogel a'r ymdeimlad o gymuned a rennir gan y Brifysgol, y dref a'r ardaloedd amgylchynol.

### Canolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth

Mae Canolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth (ChwaraeonAber), sydd wedi'i lleoli ar gampws Penglais, yn agored i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Bob blwyddyn, mae'n croesawu mwy na 250,000 o bobl i ddefnyddio ei hystod eang o gyfleusterau dan do ac awyr agored. Mae'r rhain yn cynnwys campfa ag offer llawn, pwll nofio a sawna, wal ddringo, maes 3G pob tywydd, cyrtiau sboncen a badminton, yn ogystal â llu o ddosbarthiadau ffitrwydd a lles. Mae gan y Brifysgol feysydd chwarae hefyd ym Meysydd Blaendolau a'r Ficerdy yn Llanbadarn.

### Canolfan Gerdd y Brifysgol

Mae Canolfan Gerdd y Brifysgol yn hyrwyddo rhaglen bellgyrhaeddol ar gyfer perfformwyr a gwrandawyr. Mae'r Ganolfan yn darparu cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr a'r gymuned leol. Mae ganddi nifer o bianos, organ electronig dau seinglawr, telyn, harpsicord ac organ siambr, yn ogystal ag offerynnau taro ac offerynnau eraill. Mae'r Llyfrgell Gerdd yn cynnwys casgliad mawr o gerddoriaeth ddalen gyda daliadau arbennig o gryf o gerddoriaeth siambr a cherddorfaol. Mae llyfrau cerddoriaeth ar gael yn Llyfrgell Hugh Owen – ac, wrth gwrs, mae adnoddau helaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gael gerllaw.

### Bargen Twf Canolbarth Cymru

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru yn fenter £110m ar y cyd gan lywodraethau Caerdydd a San Steffan i dyfu'r economi yng nghanolbarth Cymru a chreu swyddi newydd, gwerth uchel yn y rhanbarth. Mae'r Brifysgol wedi cael ei gwahodd i gyflwyno Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer dau brosiect, sef y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol a'r Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd (yr olaf yn adeiladu ar lwyddiant ArloesiAber). Os byddant yn llwyddiannus, bydd y ddau brosiect gyda'i gilydd yn arwain at fuddsoddiad cyfalaf o oddeutu £50m yn y Brifysgol a fydd yn cynnwys rhywfaint o arian cyfatebol gan fuddsoddwyr eraill.

### Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth

Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, sydd wedi'i lleoli yng nghanol campws Penglais, yw un o'r canolfannau celfyddydau mwyaf yng Nghymru ac mae'n denu mwy na 700,000 o ymweliadau bob blwyddyn o'r dref a'r siroedd amgylchynol. Cefnogir y ganolfan arobryn gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac fe'i cydnabyddir fel 'canolfan flaenllaw ar gyfer y celfyddydau'. Mae ganddi raglen artistig bellgyrhaeddol, gan gynhyrchu a chyflwyno ar draws pob math o gelfyddyd, gan gynnwys drama, dawns, cerddoriaeth, celfyddydau gweledol, celfyddydau cymhwysol, ffilm, cyfryngau newydd, a chelfyddydau cymunedol. Mae cyfleusterau'r ganolfan yn cynnwys neuadd gyngerdd (y Neuadd Fawr), theatr (Theatr y Werin), stiwdio berfformio, mannau arddangos, sinema fwtîc, siop lyfrau a bariau caffi.



# Cyfnewid, Gwybodaeth ac Arloesi

## ArloesiAber

Mae'r campws hwn, sydd newydd ei agor, yn caniatáu i waith ymchwil allweddol gael ei gynnal gan ddefnyddio technolegau newydd gyda rhai o gwmnïau mwyaf arloesol y wlad. Mae ArloesiAber yn cynnig cyfleusterau ac arbenigedd sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn y sectorau biotechnoleg, technoleg-amaeth a bwyd a diod, ac fe'i cefnogir gan ein Prifysgol, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, a'r Cygnor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC).

Mae gan ArloesiAber y cyfleusterau canlynol:

- **Canolfan Bioburo:** Cyfleuster ar raddfa beilot ar gyfer echdynnu, dadansoddi a gwneud y gorau o gemegion o ddeunyddiau biomas a llif gwastraff gyda biotechnoleg ddiwydiannol gyfannol ac amgylchedd safon bwyd.
- **Canolfan Bwyd y Dyfodol:** Amgylchedd safon bwyd ar gyfer profi, dilysu a gwella deunyddiau presennol a newydd fel bwydydd, gan gynnwys cynnwys maethol, dadansoddi cyfansoddiadol, oes silff a dewisiadau defnyddwyr.
- **Canolfan Dadansoddi Uwch:** Mae labordai modern sy'n cynnwys offer cemegol dadansoddol o'r radd flaenaf yn darparu amgylchedd ymchwil sy'n mynd i'r afael ag anghenion dadansoddol cydweithredwyr ac yn ceisio eu cyflawni.
- **Biofanc Hadau:** Cyfleuster ag amgylchedd rheoledig ar gyfer storio a chatalogio adnoddau genetig planhigion yn ddiogel.

## Canolfan Ffenomeg Blanhigion Genedlaethol

Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal y Ganolfan Ffenomeg Blanhigion Genedlaethol, sy'n cynnwys y tŷ gwydr mwyaf datblygedig yn y Deyrnas Unedig, wedi'i lleoli yn ein Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Mae'r Ganolfan yn gyfleuster cenedlaethol a gefnogir gan y Cyngor Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) ac fe'i datblygwyd am £6.8m. Mae'r gwaith ymchwil a gynhelir yma yn helpu i ddatblygu amrywiadau newydd o blanhigion a chnydau i helpu i fynd i'r afael â heriau byd-eang y newid yn yr hinsawdd, diogeledd bwyd ac amnewid cynhyrchion wedi'u seilio ar olew.

## Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi

Mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn cynnig ystod o wasanaethau cymorth i staff sy'n weithredol o ran ymchwil – o ddatblygiad proffesiynol i baratoi ceisiadau grant. Mae'r Adran hefyd yn borth i ddiwydiant a sefydliadau allanol eraill ddarganfod mwy am y cyfoeth o gyfleoedd cyfnewid gwybodaeth a gynigir gan Brifysgol Aberystwyth, a sut gall byd busnes a'r byd academaidd gydweithio. I ddysgu mwy am rai o brosiectau ymchwil cydweithredol Prifysgol Aberystwyth sy'n cael effaith fawr, cliciwch **yma**.

## Mentrau allgynhyrchu

Rydym yn cefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu hallbynnau ymchwil yn fentrau masnachol. Rydym yn annog entrepreneuriaid y dyfodol a sefydlu busnesau newydd er mwyn creu llwybr i'r farchnad ar gyfer eiddo deallusol y brifysgol oherwydd buddion sylweddol i'r brifysgol, staff, Cymru ac ymhellach i ffwrdd.

Mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn gweithio gyda staff academaidd i:

- Amlygu eiddo deallusol gwerthfawr sy'n cael effaith fawr.
- Asesu potensial masnachol cynnyrch/ gwasanaeth yn y dyfodol.
- Cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau busnes cadarn.
- Cynorthwyo i godi arian a rhwydweithio.

Mae ein tîm Trosglwyddo Technoleg yn gweithio gyda Phanel Cynghori Masnachol o arbenigwyr o ddiwydiant a'r llywodraeth, i adolygu syniadau busnes a mentora staff ynglŷn â chynllunio busnes a chodi arian. Mae enghreifftiau o'n cwmnïau allgynhyrchu ar gael **yma**.



# Dysgu ac Addysgu

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchïo mewn bod yn ddwys o ran ymchwil ar yr un pryd â chanolbwyntio ar fyfyrwyr. Ein nod yw creu amgylchedd lle mae myfyrwyr yn gallu datblygu a dysgu; lle maen nhw'n cael eu herio i feddwl yn feirniadol ac yn annibynnol; a lle gallant fod yn arloesol ac yn greadigol yn rhan o gymuned academaidd gefnogol.

Ni yw'r brifysgol orau yng Nghymru o ran bodlonrwydd myfyrwyr am y degfed flwyddyn yn olynol yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr diweddaraf. Yn ôl Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times, ni yw'r 42fed gorau o 133 o brifysgolion ledled y Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar fodlonrwydd â'n hansawdd addysgu, profiad myfyrwyr, a chyfraddau cwblhau gradd.

Mae pob un o'n hacademyddion yn ystyried dylunio cyrsiau, rhyngweithio a chydweithredu, asesu, a chymorth i ddysgwyr o ddifrif. Mae ehangder yr adrannau y rhoddwyd clod i'w hacademyddion yng Ngwobrau Cwrs Nodedig y Brifysgol ar gyfer arloesedd mewn addysgu – Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Seicoleg, Ffiseg ac Ysgol y Graddedigion, Dysgu Gydol Oes, yr Ysgol Addysg, Ysgol Fusnes Aberystwyth, yr Uned Dysgu ac Addysgu, a'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, yn dangos ein cryfder.

Mae ein hacolâd fel un o'r 10 uchaf yn y DU am ansawdd y dysgu (Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times) yn dyst i'n safonau uchel, ac ymroddiad ein staff sy'n mynd yr ail filltir i sicrhau fod ein myfyrwyr yn cael yr addysg orau bosibl. Mae boddhad myfyrwyr yn cael ei adlewyrchu nid yn unig yn ein canlyniadau ACF cyson cryf, ond hefyd yn ein safle ar y brig yng Nghymru a Lloegr am brofiad myfyrwyr (Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times).

## Denu myfyrwyr

Mae niferoedd myfyrwyr y Brifysgol yn aros yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae 29% o'n myfyrwyr yn dod o Gymru, 59% o weddill y DU, a 12% o dramor.

Rhagwelir y bydd myfyrwyr domestig a rhyngwladol yn cynyddu, a bydd mwy o bwyslais ar y farchnad ryngwladol. Yn ogystal â chysylltiadau hanesyddol â Malaysia a China, mae'r Brifysgol wedi gweld twf diweddar mewn niferoedd myfyrwyr o Dde Asia ac Affrica.

Yn anarferol i brifysgol o'r DU, Gogledd America yw'r gyfran fwyaf o'n myfyrwyr rhyngwladol ac, yn ogystal â thwf parhaus yno, mae gennym hefyd bresenoldeb recriwtio parhaol yn Tsieina, India a Malaysia.



# Buddsoddi yn y Dyfodol

Rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn cyfleusterau newydd i wella profiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd y datblygiadau hyn yn cyd-fynd â'n Strategaeth Tuag at Garbon Sero Net 2030.

### Campws Arloesi a Menter

Mae'r Brifysgol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol, wedi buddsoddi dros £40m mewn datblygu Campws Arloesi ac Ymchwil newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig yng Ngogerddan.

Mae Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnwys cyfleuster a gydnabyddir yn rhyngwladol i ddenu rhagor o gyllid ymchwil fel y gall cwmnïau ac ymchwilwyr ymgymryd â phrosiectau ymchwil ar y cyd a chyfnewid gwybodaeth i hybu'r fioeconomi. Disgwylir i'r ymchwil greu cynhyrchion, gwasanaethau a chwmnïau allgynhyrchu newydd arloesol yn y sectorau bwyd cynaliadwy, iechyd, biotechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

### Pantycelyn

Gyda chymorth grant £5m gan Lywodraeth Cymru, mae'r prosiect £12m hwn wedi gweld Pantycelyn yn ailagor fel curiad calon cymuned iaith Gymraeg fywiog Aberystwyth. Mae'n gartref i Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, timau chwaraeon Y Geltaidd, a chôr Pantycelyn.

### Bywyd newydd i'r Hen Goleg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithio ar gynlluniau cyffrous i drawsnewid yr Hen Goleg yn ganolfan dreftadaeth a diwylliannol fywiog a fydd yn denu pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr o bell.

Byddai'r cynigion yn gweld yr adeilad eiconig hwn ar bromenâd poblogaidd Aberystwyth yn cael ail fywyd fel canolfan arddangos, man dysgu a hyb ar gyfer egin fusnesau creadigol.

### Canolfan Ragoriaeth Filfeddygol yn Aberystwyth


Mae'r Ganolfan Addysg Filfeddygol newydd yn rhan allweddol o'r Ysgol Gwyddor Filfeddygol gyntaf, a'r unig un o'i bath, yng Nghymru. Buddsoddwyd £2.4m i greu'r Ganolfan ac fe'i hagorwyd gan y Brenin Siarl III. Mae'r Ganolfan yn cynnig cyfleusterau addysgu newydd ar gampws Penglais y Brifysgol gyda chyfleusterau anatomi ac astudio.

### Labordai Ymchwil Categori 3

Atgyfnerthwyd statws y Brifysgol fel y prif sefydliad ymchwil ar gyfer iechyd anifeiliaid yng Nghymru yn sgil datblygu canolfan filfeddygol o'r radd flaenaf i sbarduno ymchwil ynglŷn â gwarchod iechyd anifeiliaid ac iechyd dynol. Mae'r prosiect yn darparu labordai bacteriolegol categori 3, fel prif amgylchedd diogel ar gyfer gwaith ar TB buchol, yn ogystal ag ystod o fentrau eraill sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Bydd y datblygiad cyffrous hwn yn gweithio gyda diwydiant i gynhyrchu profion a brechlynnau newydd er mwyn lleihau colled yn y diwydiant da byw trwy gefnogi busnesau sy'n masnachu mewn da byw, yn ogystal â datblygu ymhellach arferion milfeddygol, busnesau gofal iechyd anifeiliaid eraill, biotechnoleg, gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid a diwydiannau eraill perthynol.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb

Mae Aberystwyth wedi ymrwymo'n gryf i greu sefydliad cynhwysol ac amrywiol hefyd. Rydym yn gwybod bod datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws arferion a gweithgareddau ein prifysgol yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dangos ein huchelgais i feithrin cymuned dysgu a gweithio gynhwysol, sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu, ac erledigaeth, lle mae staff a dysgwyr yn cael eu cefnogi, yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, ac yn gallu gwireddu eu potensial.



# Ynglŷn â'r swydd

**Fel Pennaeth newydd ein Cofrestrfa, byddwch yn arwain ar y dull cydweithredol a ddefnyddiwn i ddarparu addysg a phrofiad amrywiol, hyblyg, ysbrydoledig ac addysgiadol i fyfyrwyr. Yn atebol i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr), byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu'r Cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr newydd, gan ganolbwyntio ar feithrin set o sgiliau uchelgeisiol a blaengar i raddedigion a chyflwyno cwricwlwm addysgol a fydd yn cefnogi cyfleoedd a chynnydd myfyrwyr, yn darparu cyfleoedd dysgu newydd ac yn tyfu gwybodaeth, gan arwain at well cyrhaeddiad a chanlyniadau graddedigion. Byddwch ar flaen y gad yn ein hymdrechion i gefnogi ein cymuned wrth iddi fynd ati'n rhagweithiol i fanteisio ar fethodolegau addysgol sy'n datblygu ac ar dechnolegau dysgu digidol.**

**Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd yw uwch swyddog cyfrifol y Brifysgol am gyngor ac arweiniad ar bob mater yn ymwneud â gweinyddiaeth myfyrwyr (gan gynnwys systemau a phrosesau), cwynion a chamymddwyn gan fyfyrwyr ac mae ganddynt oruchwyliaeth dros gysylltiadau'r Brifysgol â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol.**

Gan adeiladu ar ein henw da am ragoriaeth addysgu a bodlonrwydd myfyrwyr, chi fydd y sbardun ar gyfer newid gan arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau ein Cofrestrfa yn strategol. Bydd eich gweledigaeth yn ein helpu i greu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn amgylchedd addysg uwch sy'n esblygu er mwyn ffurfio gwasanaeth cadarn o ran gweinyddu a chymorth i fyfyrwyr, yn sail i amcanion a gwerthoedd strategol y Brifysgol.

Byddwch yn creu cysylltiad deinamig rhwng y gofrestrfa a'r ddarpariaeth academaidd gan lunio gwasanaeth gweinyddiaeth myfyrwyr sy'n hyderus ac wedi'i diweddaru a fydd yn hyrwyddo newidiadau sylfaenol o ran natur a chyflymder y gwasanaeth a ddarperir gan y gofrestrfa.

Dyma eich cyfle i ddatblygu a llunio ein gwasanaeth cofrestru gan ddefnyddio grym technoleg i wneud y gorau o'n prosesau gweinyddu academaidd gan asesu a gwella yn barhaus, a cheisio sicrhau rhagoriaeth yn ein polisïau a'n prosesau academaidd i gyd.

Byddwch yn arweinydd profiadol mewn Addysg Uwch â dealltwriaeth fanwl a gwybodaeth weithredol am bolisïau, arferion a rheoleiddio academaidd ym maes addysg uwch yn y Deyrnas Unedig. Bydd eich gweledigaeth yn arloesol a byddwch yn ymrwymedig i ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

I wneud ymholiad anffurfiol, cysylltwch ag Emma Wilkins o Dixon Walter trwy e-bostio emma@dixonwalter.co.uk.

Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Fel arfer fe benodir i swyddi o fewn 4 - 8 wythnos wedi'r dyddiad cau.



# Cyfrifoldebau Allweddol

Bydd deiliad y swydd yn darparu gwasanaeth proffesiynol, integredig o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr ac sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial academaidd i'r eithaf. Byddant yn sbarduno newid, gan weithio i greu cynaliadwyedd i'r dyfodol ac adeiladu ar yr enw da sydd gennym am ragoriaeth ar hyn o bryd. Byddant yn adeiladu sail ehangach i waith ein Cofrestrfa gan ddatblygu sgiliau a ffyrdd newydd o gyflawni, a mynd i'r afael â'r fframwaith rheoleiddio mewn ffordd gyson, gyfrifol ond sydd yn y pen draw yn ffordd greadigol a fydd yn hyrwyddo darpariaeth academaidd newydd, uchelgeisiol ac arloesol. Byddant yn gwella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac ansawdd y prosesau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Academaidd yn barhaus, er mwyn diwallu anghenion y Brifysgol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf a phrofiad rhagorol i fyfyrwyr.

Bydd Pennaeth y Gofrestrfa Academaidd yn arwain gwasanaeth i fyfyrwyr a staff sy'n rhagweithiol ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Strategol y Brifysgol ac amcanion y Brifysgol ar gyfer rhagoriaeth ei dysgu a boddhad ei myfyrwyr.

Rhaid i ddeiliad y swydd allu darparu sgiliau arwain a rheoli cryf, gan ysbrydoli a grymuso timau o fewn y gofrestrfa academaidd i sicrhau cydweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel yn yr adrannau proffesiynol ac academaidd, gan gefnogi cyfleoedd i ddatblygu ein darpariaeth academaidd.

Bydd deiliad y swydd yn gosod y safon ar gyfer darparu gwasanaethau ein pedwar portffolio yn unol â strategaeth y brifysgol, sef Ansawdd a Sicrwydd, Gwasanaethau Academaidd, Gweinyddiaeth y Cyfadrannau ac Amserlennu a Goruchwyliaeth.

Bydd deiliad y swydd yn arweinydd profiadol ym maes gwasanaethau academaidd, bydd ganddo brofiad eang ar lefel uwch a bydd yn gyfforddus yn arwain a datblygu gwasanaethau cymhleth ac eang i gefnogi myfyrwyr a staff academaidd. Byddant yn gallu cynnal trawsnewid i gefnogi nodau strategol y Brifysgol.

Gan weithio i gefnogi cynlluniau strategol y Brifysgol, bydd deiliad y swydd yn cyflawni nodau ac uchelgeisiau'r Cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr, gan weithio mewn modd cydweithredol a cholegol. Byddant yn weladwy ac yn arwain yn eang ledled y Brifysgol, gan chwarae rhan weithredol ym mywyd ehangach y Brifysgol.



# Cyfrifoldebau Allweddol (parhad)

### Rheolaeth strategol ac arweinyddiaeth

- Darparu goruchwyliaeth strategol ar gyfer gwasanaeth y gofrestrfa, datblygu, gweithredu a darparu adnoddau ar gyfer cyflawni gwasanaethau'r Gofrestrfa Academaidd, gan gynnwys cofnodion myfyrwyr; cwynion a chamymddwyn; amserlennu addysgu ac asesu; cofrestru, addasiadau, cynnydd, cyrhaeddiad a graddio; llunio a chymhwyso polisïau, prosesau a systemau traws-sefydliadol.
- Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau cadarn yn y Brifysgol a thu hwnt a chynrychioli'r Brifysgol gyda phartneriaid strategol allweddol ac ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn y meysydd gwaith hyn.
- Sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r ordinhadau perthnasol parthed ei holl faterion gweinyddu, prosesau a gweithdrefnau academaidd.
- Arwain a rheoli Darpariaeth y Gofrestrfa a gweithgareddau gan sicrhau gwerth am arian, rheoli risg effeithiol a gwelliant parhaus. Mae ethos gwasanaeth cwsmeriaid cryf a safonau proffesiynol uchel yn cael eu hyrwyddo.
- Cadeirio prif bwyllgorau a gweithgorau'r Brifysgol, a chwarae rhan weithredol ynddynt.
- Arfer rheolaeth ariannol gadarn ac atebolrwydd wrth reoli cyllideb y Gofrestrfa Academaidd yn unol â rheoliadau ariannol y Brifysgol.

### Rheoli Pobl

- Rhoi arweinyddiaeth weladwy i staff, gan gynnig pwyslais a disgwyliadau clir, datblygu a chyflwyno diwylliant cynhwysol lle mae pawb yn llawn ymroddiad ac yn cyflawni ar lefel uchel a lle mae'r staff yn cael eu galluogi i lwyddo a thyfu.
- Hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb, amrywioldeb, a chynhwysiant, gan greu diwylliant sy'n croesawu ac yn galluogi cynwysoldeb ac sy'n galluogi newid ac arloesedd.
- Meithrin diwylliant sy'n annog ac yn cefnogi lefel uchel o ddatblygiad proffesiynol ac agwedd hyblyg, gwybodus ac ymroddgar tuag at ddarparu gwasanaethau.

### Gwelliant Parhaus

- Cydweithio'n agos â'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) i sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chyfleu a thrafodaethau priodol yn cael eu cynnal ar faterion sy'n ymwneud â gweinyddu myfyrwyr a gweinyddiaeth academaidd ac ar oblygiadau newidiadau i bolisïau ac arferion fel y maent yn ymwneud â'r Gofrestrfa Academaidd, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ymateb a darparu gwasanaethau cost-effeithiol o'r ansawdd uchaf.
- Meithrin cyswllt â Chofrestryddion ar draws y sector gan adeiladu perthynas, a rhannu'r arfer gorau.
- Gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol i gynyddu cydweithio, i wella gwaith cynllunio ein portffolio a'r cwricwlwm yn barhaus, a rheoli a chyflwyno gweithdrefnau sicrhau ansawdd y Brifysgol er mwyn dilysu'r holl gyrsiau, eu monitro'n rheolaidd a'u hadolygu'n gyfnodol.
- Arwain y gwaith o ddefnyddio a datblygu cofnodion y myfyrwyr gan weithio ar y cyd â pherchnogion systemau technegol, i gynorthwyo i gynhyrchu gwybodaeth reoli amserol a chywir, ac i gydymffurfio â gofynion cyrff allanol (e.e. HESA, CCAUC), gan chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo cywirdeb a defnydd effeithiol o ddata myfyrwyr ledled y Brifysgol.
- Ymrwymiad i ddatblygu proffesiynol parhaus e.e. trwy ymaelodi a chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau proffesiynol perthnasol.

### Arall

- Cadw golwg am ddatblygiadau allanol perthnasol mewn AU a meithrin cysylltiad â nhw, a dod ag arloesedd ac arfer gorau i genhadaeth, gweledigaeth ac arferion gwaith y gofrestrfa.
- Ymwneud yn fewnol â chyd-weithwyr academaidd, gan weithio ar y cyd i ddeall eu hanghenion a chynnal diwylliant cadarn o bartneriaethau busnes.
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy'n addas i'r swydd.
- Ymrwymo i Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol, ynghyd â deall sut mae'n gweithredu o fewn cyfrifoldebau'r swydd.
- Unrhyw ddyletswydd resymol arall sy'n cyfateb i radd y swydd.

Gallai'r disgrifiad swydd hwn gael ei adolygu a'i newid i gyd-fynd â newidiadau yn anghenion y Brifysgol, i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol, ac/neu i ychwanegu unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

Unrhyw ddyletswydd resymol arall sy'n cyfateb i radd y swydd.

# Manyleb yr Unigolyn

### Cymwysterau, Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau gofynnol:

- Profiad sylweddol ar lefel uwch o fewn prifysgol neu sefydliad sy'n gysylltiedig ag AU yn gweithio mewn un neu fwy o feysydd yn y portffolio gyda dealltwriaeth fanwl o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar yr agenda denu, cadw a chynnydd myfyrwyr.
- Gwybodaeth drylwyr o reoleiddio a chydymffurfio mewnol ac allanol, ac arfer gorau sy'n ymwneud â gweinyddu academaidd, gwasanaethau myfyrwyr a phrosesu data.
- Newid – Arwain ar newid a chael y gallu i drawsnewid gweithlu profiadol a sefydledig i ddarparu gwasanaeth cofrestru modern, ymatebol a hyblyg.
- Gallu datblygu perthynas, dylanwadu, a meithrin cysylltiadau ar y lefelau uchaf gan gynnwys cydweithwyr uwch yn yr adrannau academaidd a'r gwasanaethau proffesiynol ym mhob rhan o'r Brifysgol, yn y Cyngor ac â rhanddeiliaid allanol allweddol.
- Dawn amlwg i arwain, gan greu amgylchedd cydlynol i ganiatáu ar gyfer swyddogaeth a arweinir gan weithwyr.
- Gallu strategol a gweithredol eang i arwain a rheoli swyddogaeth y gofrestrfa.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r dirwedd Addysg Uwch yn y DU.
- Sgiliau ardderchog o ran cynllunio strategol a threfnu, gyda'r gallu i gynllunio, a hanes o ddatblygu a gweithredu cynlluniau i gyflawni amcanion wedi'u targedu gan gynnwys rheoli cyllideb.
- Ymrwymiad cryf a gallu amlwg i sefydlu cysylltiadau cadarnhaol a chydweithredol ag eraill i gyflawni amcanion strategol a'r gallu i arwain a gweithio'n effeithiol mewn timau.
- Y gallu i gynrychioli'r Brifysgol drwy feithrin cysylltiadau effeithiol â chyrff allanol ac agendâu polisi, a dylanwadu'n gadarnhaol arnynt.
- Gallu deall natur ddwyieithog y Brifysgol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi gweithio yn ddwyieithog.
- Profiad amlwg o arwain tîm sy'n sicrhau profiad cadarnhaol i fyfyrwyr, creu diwylliant sy'n cefnogi cynhwysiant a gweithio cydweithredol i ymdrechu tuag at welliannau cadarnhaol parhaus a darpariaeth academaidd gadarnhaol.

### Dymunol

- Cymhwyster proffesiynol yn un o feysydd y gwasanaeth.
- Profiad o chwarae rhan weithredol mewn adolygiadau ansawdd allanol.
- Aelodaeth o gyrff proffesiynol priodol.
- Cymraeg Llafar (siarad) ac Ysgrifenedig Lefel C1.*

*Gellir gweld manylion am Lefelau'r Iaith Gymraeg yn:
**aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/welsh-standards**

# Sut i wneud cais

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi penodi Dixon Walter, cwmni chwilio gweithredol, i gynorthwyo â'r penodiad hwn.

Gellir dod o hyd i wybodaeth a manylion am sut i wneud cais yn

www.dixonwalter.co.uk/opportunities/aber-head-academic-registry

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i

emma@dixonwalter.co.uk

**erbyn hanner nos ar Ddydd Mawrth 2 Rhagfyr 2025.**

Dylai ceisiadau gynnwys:

- llythyr cais yn nodi eich diddordeb yn y rôl ac yn rhoi manylion i ddweud sut rydych chi'n cyd-fynd â gofynion manyleb yr unigolyn
- curriculum vitae cynhwysfawr
- manylion tri chanolwr a'ch cyfnod rhybudd (ni chysylltir â chanolwyr heb eich caniatâd)
- ffurflen manylion personol wedi'i llenwi (ar gael ar y wefan isod).

I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cais, cysylltwch ag Emma Wilkins yn emma@dixonwalter.co.uk neu ffoniwch 07741 875289.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac mae'n gwneud ei gorau i fod yn gynhwysol, gan roi gwerth ar amrywiaeth ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, a'r rhai hynny nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ymgeiswyr ag anableddau, a menywod. Lle bo'n briodol, gwneir unrhyw addasiadau rhesymol fel y gall aelodau staff gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn 'Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd' achrededig ers 2016. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddolen hon:

www.gov.uk/guidance/disability-confident-how-to-sign-up-to-the-employer-scheme.cy

Sefydliad dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg yw Prifysgol Aberystwyth, ac mae'n ymroddedig i Gyfle Cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd pob cais a gyflwynir yn cael ei drin yn gyfartal. Gofynnwn i chi roi gwybod pa un yw eich dewis iaith ar gyfer gohebiaeth.




= Maes awyr rhyngwladol
= Gorsaf drenau
= Porthladd fferi
Aberdeen
Glasgow
Caeredin
Newcastle upon Tyne
Belfast
Lerpwl
Dulyn
Manceinion
Birmingham
Aberystwyth
Caerdydd
Llundain